| | |
|---|---|
| **Dyddiad creu:** | 17/01/2023 |
| **Dyddiad cyhoeddi:** | 28/02/2023 |
| **Rhif y fersiwn:** | 1.00 |

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth:** | Cymunedau |
| **Maes Gwaith:** | Strategaeth a Gweithrediadau Gwastraff |
| **Manylion Cyswllt:** | 01443 866533<br>AILGYLCHU@CAERFFILI.GOV.UK |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Hysbysiad Preifatrwydd Prosesau Gweithio Strategaeth a Gweithrediadau Gwastraff |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'r wybodaeth bersonol mewn perthynas â gwasanaethau gwaredu gwastraff ychwanegol. |

# Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth chi

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth chi

### Diben y gwaith prosesu

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynnig gwasanaethau i deuluoedd mwy, sydd â mwy nag un plentyn mewn cewynnau drwy'r amser, a'r rhai ag anableddau a symudedd cyfyngedig.

Mae modd i drigolion sydd â theuluoedd mwy (6 neu fwy o aelodau yn y teulu) ofyn am fin sbwriel mwy o faint i ddal rhagor o wastraff.   Ein meini prawf ni yw bod angen 6 neu fwy o aelodau yn y teulu yn byw yn yr eiddo yn llawn amser. Byddai angen gwybodaeth arnom ni ynghylch faint o bobl sy'n byw yn yr eiddo, eu henwau nhw a dyddiadau geni.  Mae hyn yn hanfodol er mwyn lleihau unrhyw hawliadau twyllodrus ac atal trigolion rhag cael biniau ychwanegol. Yn ystod y broses ymgeisio, mae enwau holl aelodau'r cartref yn cael eu casglu a'u cofnodi trwy geisiadau gwastraff, sydd wedyn yn hygyrch i'r Cynorthwywyr Technegol er mwyn ymweld â'r cyfeiriad hwn.  Mae angen ymweliad i sicrhau bod trigolion yn defnyddio ein holl wasanaethau ni (sbwriel, ailgylchu a gwastraff bwyd) a sicrhau nad yw eu biniau ailgylchu nhw wedi'u halogi. Os oes ganddyn nhw finiau ailgylchu halogedig, yna bydden ni'n gwrthod y cais ac yn ailymweld 7 diwrnod yn ddiweddarach i wneud asesiad o'n canfyddiadau ni.

Mae'r un broses yn union yn cael ei defnyddio yn ystod y cais am fin cewynnau, er mai’r unig wybodaeth sydd ei hangen yw enwau a dyddiadau geni’r plant.  Mae hyn er mwyn bodloni ein meini prawf ni o gael o leiaf 2 blentyn sy'n iau nag oed ysgol ac sydd mewn cewynnau drwy'r amser.

Ar gyfer gwastraff hylendid, rydyn ni angen gwybodaeth am eu cyflwr/cyflyrau meddygol a manylion eu meddyg teulu nhw. Mae'r tîm Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid yn rhoi datganiad iddyn nhw dros y ffôn ac, ar y diwedd, yn cadarnhau neu'n gwrthod. Yna, mae aelod o'n tîm ni yn ymweld â'r eiddo ac yn asesu'r preswylwyr i gadarnhau/wrthod y cais.

Ar gyfer casgliadau â chymorth, mae'r un broses yn union â'r uchod yn digwydd, ond mae trigolion sydd angen hyn yn tueddu i fod â symudedd cyfyngedig oherwydd cyflyrau meddygol/anableddau. Mae angen gwybodaeth feddygol hefyd. Yna, mae aelod o'r tîm yn ymweld i wneud asesiad a chadarnhau/gwrthod y cais a sicrhau bod y preswylydd yn bodloni'r meini prawf i allu cael y gwasanaeth.

Cedwir gwybodaeth am wastraff hylendid, biniau cewynnau a chasgliadau â chymorth ledled y Fwrdeistref Sirol ar daenlen ac mae'n cael ei hadolygu'n flynyddol. Ar gyfer casgliadau â chymorth a gwastraff hylendid, mae'r daenlen yn cynnwys y cyfeiriad yn unig. Ar gyfer y rhai sydd â bin cewynnau, mae enw'r person a wnaeth gais, gwybodaeth gyswllt a chyfeiriad ar gofnod (mae gwybodaeth gyswllt yn ei gwneud hi'n haws wrth adolygu'r system 12 mis yn ddiweddarach, yn hytrach nag anfon llythyrau). Mae'r rhain hefyd yn cael eu cadw ar ffeil fel bod modd i aelodau'r tîm gyfeirio atyn nhw pan ddaw ymholiadau gan staff casglu a goruchwylwyr. Pan fydd y broses yn cael ei hadolygu ac nad yw'r cyfeiriad hwnnw bellach angen y gwasanaeth perthnasol, caiff y daflen sy'n cael ei chadw ar ffeil (yn cynnwys enwau, cyfeiriad a gwybodaeth arall yn dibynnu ar y gwasanaeth) ei dinistrio.

Mae'r holl wybodaeth sydd ei hangen er mwyn gallu prosesu cais yn rhan o'r meini prawf, sydd hefyd yn lleihau ceisiadau twyllodrus. Mae'r tîm Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid wedi dweud y bydd ceisiadau twyllodrus yn cael eu dal cyn gynted ag y gofynnir am yr wybodaeth hon; byddai trigolion sydd wir angen y gwasanaeth yn agored i roi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani er mwyn derbyn y gwasanaeth penodol hwnnw.

**Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu**

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

*1(f) processing is necessary for the purposes of the legitimate interests pursued by the controller or by a third party, except where such interests are overridden by the interests or fundamental rights and freedoms of the data subject which require protection of personal data, in particular where the data subject is a child.*

## Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth chi?

**Manylion y Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth chi yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Mr Carl Evans
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

**Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth chi**

Cynorthwywyr Technegol, rheolwyr o fewn maes gwaith Strategaeth a Gweithrediadau Gwastraff ac aelod o'r tîm sy'n delio â chasgliadau gwastraff â chymorth a gwastraff hylendid. Y tîm Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid/y ganolfan gyswllt cwsmeriaid sy'n casglu'r wybodaeth.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth wedi'i darparu gennych chi yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch chi'n gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth chi, byddwn ni'n cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth chi?

**Manylion am y cyfnod cadw**

Mae pa mor hir y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arfer gorau.

Cedwir trwyddedau am 3 blynedd.

## Eich hawliau chi (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

**Eich hawliau chi o dan y Ddeddf Diogelu Data**

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanyn nhw):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan ni: Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau chi ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau chi, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwyno**

Os ydych chi'n anfodlon â'r ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth chi, mae gennych chi'r hawl i gwyno. Cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion chi.

Os byddwch chi'n parhau'n anfodlon, mae gennych chi hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.  Am ragor o wybodaeth am y broses gwyno, dilynwch y ddolen hon.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth chi

Gall y rhai sydd â faniau a/neu drelars ddefnyddio Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn y Fwrdeistref Sirol os ydyn nhw'n byw yn y Fwrdeistref Sirol ac at ddibenion gwaredu gwastraff y cartref neu wastraff adeiladu/dymchwel domestig.

Er mwyn sicrhau hyn, mae gennym ni system drwyddedau ar waith. Mae trwyddedau ar gael yn ein swyddfeydd arian parod ni neu ganolfannau gwasanaeth i gwsmeriaid. Mae trwyddedau am ddim ar gyfer gwastraff y cartref ac yn cynnwys ffi ar gyfer gwastraff adeiladu/dymchwel domestig. Mae trwyddedau yn rhai defnydd sengl ac mae'n rhaid eu hildio i aelod o staff yn y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref rydych chi'n ei defnyddio. Cedwir trwyddedau am 3 blynedd.

Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth chi’n cael ei phrosesu.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni'n prosesu'ch gwybodaeth chi a'ch hawliau, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

{Hyperlink to Full Privacy Notice on our website}